



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
1 Samuel 17: 1-58	An illustration of David standing in a field, holding a stone in his right hand and a sling over his shoulder. He is wearing a red tunic and a white sash. In the background, there are rolling hills and a small building. The text '1 Samuel 17: 1-57' and 'DAVID AND GOLIATH' is written at the bottom, along with the website 'www.freebibleimages.org'.	
1 Casglodd y Philistiaid eu byddin at ei gilydd i fynd i ryfel. Roedd Saul a byddin Israel hefyd wedi codi gwersyll yn Nyffryn Ela. Roedd y Philistiaid ar ben un bryn a'r Israeliaid ar ben bryn arall, gyda'r dyffryn rhyngddynt nhw.	An illustration of Goliath, a large warrior in a red and gold tunic, standing on a hill and holding a spear. He is looking towards a group of soldiers in the foreground. In the background, there are rolling hills and a small building. The text '1 Samuel 17: 1-57' and 'DAVID AND GOLIATH' is written at the bottom, along with the website 'www.freebibleimages.org'.	
2 Tra roedd Saul a'i fyddin yn Nyffryn Ela daeth milwr o'r enw Goliath o dref Gath allan o wersyll y Philistiaid i herio'r Israeliaid.	A map showing the Valley of Elah, Gath, and Bethlehem. The Dead Sea is also labeled. The map is a simple line drawing with a yellow background and a blue sea.	

- 
- 3 Roedd e dros naw troedfedd o daldra! Roedd yn gwisgo helmed bres, arfwisg bres oedd yn pwysu bron 60 cilogram, a phadiau pres ar ei goesau. Roedd cleddyf cam pres yn hongian dros ei ysgwyddau. Roedd coes ei waywffon fel trawst ffrâm gwehydd, a'i phig haearn yn pwysu tua 7 cilogram. Ac roedd gwas yn cario ei darian o'i flaen.



- 
- 4 Dyma fe'n sefyll a gweiddi ar fyddin Israel, "Dewiswch un dyn i ddod i lawr yma i ymladd hefo fi! Os gall e fy lladd i, byddwn ni'n gaethweision i chi. Ond os gwna i ei ladd e yna chi fydd yn gaethweision i ni. Dw i'n eich herio chi heddiw, fyddin Israel. Dewiswch ddyn i ymladd yn fy erbyn i!" Pan glywodd Saul a dynion Israel hyn, dyma nhw'n dechrau panicio, ac roedd ganddyn nhw ofn go iawn.



- 
- 5 Roedd Dafydd ym Methlehem yn gofalu am ddefaid ei dad.



- 
- 6 Roedd ei dri brawd hynaf — Eliab, Abinadab a Shamma — wedi dilyn Saul i'r rhyfel. Roedd Dafydd yn aml yn gorfod gwarchod y defaid rhag ymosodiadau gan lewod ac eirth.



- 
- 7 Yn y cyfamser roedd Goliath yn dod allan i herio byddin Israel bob dydd, fore a nos. Gwnaeth hyn am bedwar deg diwrnod.



- 
- 8 Un diwrnod dyma Jesse yn dweud wrth Dafydd, "Brysia draw i'r gwersyll at dy frodyr. Dos â sachaid o rawn wedi ei grasu a deg torth iddyn nhw. A cymer y deg darn yma o gaws i'w roi i'r capten. Ffeindia allan sut mae pethau'n mynd."



- 
- 9 Dyma Dafydd yn gadael y pac oedd ganddo gyda'r swyddog cyfarpar, a rhedeg i ganol y rhengoedd at ei frodyr i holi eu hanes. Tra roedd e'n siarad â nhw, dyma Goliath yn dod allan o rengoedd y Philistiaid, a dechrau bygwth yn ôl ei arfer.



- 
- 10 Dyma Dafydd yn holi'r dynion o'i gwmpas, "Be fydd y wobr i'r dyn sy'n lladd y Philistiad? Pwy mae'r pagan yma o Philistiad yn meddwl ydy e, yn herio byddin y Duw byw?" Roedd y brenin wedi addo arian mawr i bwy bynnag oedd yn lladd Goliath. Byddai'n cael priodi merch y brenin, a fyddai teulu ei dad byth yn gorfod talu trethi eto.



- 
- 11 Roedd yna rai wedi sylwi ar y diddordeb roedd Dafydd yn ei ddangos, a dyma nhw'n mynd i ddweud wrth Saul. A dyma Dafydd yn cael ei alw ato. Dwedodd Dafydd wrth Saul, "Dw i'n barod i ymladd y Philistiad yna!" "Alli di ddim ymladd yn ei erbyn e!" meddai Saul. "Dim ond bachgen wyt ti! Mae e wedi bod yn filwr ar hyd ei oes!"



- 
- 12 Atebodd Dafydd, "Bugail ydw i. Weithiau bydd llew neu arth yn dod a chymryd oen o'r praid. Bydda i'n rhedeg ar ei ôl, ar yn ei daro i lawr. Syr, dw i wedi lladd llew ac arth. A bydda i'n gwneud yr un fath i'r pagan o Philistiad yma, am ei fod wedi herio byddin y Duw byw! Bydd yr ARGLWYDD yn fy achub i o afael Goliath!"



- 
- 13 Felly dyma Saul yn dweud, "lawn, dos di. A'r ARGLWYDD fo gyda ti." Yna dyma Saul yn rhoi ei arfwisg e'i hun i Dafydd ei gwisgo —ond roedd e'n methu cerdded. "Dw i ddim wedi arfer gyda nhw," meddai Dafydd.



- 
- 14 Felly tynnodd nhw i ffwrdd. Gafaelodd yn ei ffon fugail, dewisodd bum carreg lefn o'r sychnant a'u rhoi yn ei fag bugail. Yna aeth i wynebu'r Philistiad gyda'i ffon dafl yn ei law. A gwaeddodd Goliath ar Dafydd, "Wyt ti'n meddwl mai ci ydw i, dy fod yn dod allan yn fy erbyn i â ffyn?"





- 
- 15 Ac roedd e'n rhegi Dafydd yn enw ei dduwiau, a gweiddi, "Tyrd yma i mi gael dy roi di'n fwyd i'r adar a'r anifeiliaid gwylltion!" Ond dyma Dafydd yn ei ateb e, "Rwyt ti'n dod yn fy erbyn i gyda gwaywffon a chleddyf, ond dw i'n dod yn dy erbyn di ar ran yr ARGLWYDD holl-bwerus! Heddiw bydd yr ARGLWYDD yn dy roi di yn fy llaw i. Dw i'n mynd i dy ladd di a torri dy ben di i ffwrdd!"



- 
- 16 Dyma Goliath yn symud yn nes at Dafydd. A dyma Dafydd yn rhedeg i'w gyfarfod. Rhoddodd ei law yn ei fag, cymryd carreg allan a'i hyrddio at y Philistiaid gyda'i ffon dafn. Tarodd y garreg Goliath ar ei dalcen a suddo i mewn nes iddo syrthio ar ei wyneb ar lawr.



- 
- 17 Rhedodd Dafydd a sefyll uwch ei ben. Wedyn dyma fe'n tynnu cleddyf y Philistiaid allan o'r wain, ei ladd, a torri ei ben i ffwrdd.




- 
- 18 Pan welodd y Philistiaid fod eu harwr wedi ei ladd, dyma nhw'n ffoi.



- 
- 19 A dyma fyddin Israel a Jwda yn rhuthro ymlaen gan weiddi "I'r gâd!", a mynd ar ôl y Philistiaid ar hyd y dyffryn nes cyrraedd giatiau tref Ecron.



- 
- 20 Aeth Dafydd â pen Goliath i Jerwsalem, ond cadwodd ei arfau yn ei babell



- 
- 21 Cyfieithwyd  
[www.beibl.net](http://www.beibl.net)



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

---